# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-01-07)

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 12 Gorffennaf 2007**
**Amser y cyfarfod: 9.10am - 9.15am**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau o dan Reol Sefydlog10.18. Enwebwyd Alun Davies gan Brynle Williams ac fe'i hetholwyd.

### Eitem 2: Cynnig i gytuno'r pwnc a'r cynllun prosiect ar gyfer ymchwiliad craffu cyntaf yr Is-bwyllgor

2.1 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelodau'n cytuno i gynnal ymchwiliad i Twbercwlosis Buchol. Cytunodd yr Aelodau'r cylch gorchwyl a chytuno hefyd i gyfarfod yn y Sioe Frenhinol ar 25 Gorffennaf pan fyddai'r dystiolaeth gyntaf yn cael ei chymryd. 2.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cynnig bod sesiwn dystiolaeth ymhellach yn cael ei chynnal yn ystod y toriad a bod y Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog a'r Prif Swyddog Milfeddygol yn y cyfarfod cyntaf a amserlennir yn yr hydref. Ychwanegodd ei fod yn cynnig bod yr adroddiad yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Medi. 2.3 Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn ystyried ymweld ag Iwerddon i gasglu mwy o dystiolaeth. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ymchwilio i hyn gyda golwg ar deithio yno yn gynnar ym mis Medi. 2.4 Cytunodd yr Aelodau hefyd y byddai Lorraine Barrett yn eistedd ar yr Is-bwyllgor tan ddiwedd yr ymchwiliad hwn.